

# Y Cyfarfod Llawn

---

Dyddiad y cyfarfod:  
**Dydd Mawrth, 10 Mehefin 2014**

Amser y cyfarfod:  
**13.30**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



---

## Agenda

(203)v4

---

### **1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### **2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

**3 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Rôl Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wrth Fynd i'r Afael â'r Agenda Trechu Tlodi (30 munud)**

#### **Dogfennau Ategol**

[Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Fframwaith Adfywio](#)

[Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Adroddiad ar Broses Asesu Cam 2](#)

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Trechu Tlodi Tanwydd drwy Effeithlonrwydd Ynni (30 munud)**

## Dogfennau Ategol

[Strategaeth Tlodi Tanwydd](#)

[Nyth](#)

**5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol (45 munud)**

**6 Dadl: Gwella Iechyd Meddwl (60 munud)  
NDM5521 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a lles yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Adolygiad Dilydol o Faterion Diogelwch 2013, wedi canfod bod "plant a phobl ifanc yn parhau i wynebu risg oherwydd eu bod yn cael eu derbyn yn amhriodol i wardiau iechyd meddwl oedolion" ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu gweithdrefn gadarnach i fyrddau iechyd adrodd ar leoliadau amhriodol ar wardiau iechyd meddwl oedolion.

Mae 'Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Adolygiad Dilydol o Faterion Diogelwch (11 Rhagfyr 2013)' ar gael yn:

[https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/CAMHS\\_English\\_2013.pdf](https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/CAMHS_English_2013.pdf)

*[Saesneg yn unig]*

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno fframwaith cenedlaethol i sicrhau parhad triniaeth yn y cyfnod pontio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, gan gynnwys system wedi ei symleiddio i

rannu gwybodaeth rhwng darparwyr.

### **Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i wella trefniadau pontio ar gyfer y rheiny sy'n symud o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.

### **Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i neilltuo gwariant ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac yn galw am drefniadau monitro gwell gan fyrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau y cyflawnir yr ymrwymiad hwn.

### **Gwelliant 5 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a lles gwael a ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol anffafriol a ffactorau croes eraill, ac yn galw am gydweithrediad gwell rhwng y GIG ac awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

### **Gwelliant 6 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi nodi problemau difrifol o ganlyniad i brinder gwelyau mewn wardiau gofal aciwt, ac yn nodi y gallai'r prinder hwn arwain at ddefnyddio celloedd yr heddlu yn amhriodol.

### **Gwelliant 7 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned, ac yn gresynu at y problemau sy'n parhau i godi wrth geisio cael mynediad at y gwasanaethau hyn.

### **Gwelliant 8 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod amseroedd aros ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod wedi dirywio'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

### **Gwelliant 9 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta.

Mae'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta, ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/090703eatingdisorderframeworken.pdf>

*[Saesneg yn unig]*

### **Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Mehefin 2014